



ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cynnig i Ehangu'r Safle yn Ysgol Gynradd Drury

**Cynyddu'r Capasiti yn Ysgol Gynradd Drury o 124 i 180 o Ddisgyblion Llawn
Amser o 1 Medi 2024 ymlaen**

Medi 2022

Cynnwys

Rhif	Adran	Tudalen
1	Rhagarweiniad	3
2	Y Cynnig a'r Ymgynghoriad	3
3	Digwyddiadau/Cyfarfodydd Ymgynghori	4
4	Ymatebion i'r Ymgynghoriad - Crynodeb	4
5	Canfyddiadau Disgyblion Ysgol	5
6	Ymateb gan Estyn	5
7	Ffurflenni Ymateb Safonol	7
8	Ymateb gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol	8
9	Ymateb gan Lywodraethwyr	8
10	Y Camau Nesaf	9
Atodiad A	Rhestr o'r rhai a gafodd y Ddogfen Ymgynghori	
Atodiad B	Canfyddiadau Disbyglion Ysgol - Map Meddwl	
Atodiad C	Ymateb Estyn i'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	
Atodiad D	Crynodeb o'r Ymatebion	
Atodiad E	Ymatebion CSFf i'r materion a godwyd	

Cyhoeddir y ddogfen ymgynghori hon ar ffurf copi caled, os oes angen copi papur o'r ddogfen hon arnoch, neu gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol er enghraifft braille neu brint bras, neu gymorth gyda dehongli mewn iaith wahanol, cysylltwch â'r Uned Moderneiddio Ysgolion. Tîm ar 01352 702188 / 704015 / 01352 704014, neu e-bostiwch 21stCenturySchools@flintshire.gov.uk.

1. Rhagarweiniad

1.1 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori trefniadaeth ysgolion ddod i ben, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y cynigydd (y Cyngor) yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori. Yn y ddogfen hon mae gofyn i'r cynigydd:

- Roi crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw;
- ymateb i'r rhain trwy roi eglurhad, rhoi gwelliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi.
- amlinellu ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac
- ymateb i ymateb Estyn trwy roi eglurhad, rhoi gwelliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi.

1.2 Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried y canlyniadau o'r broses ymgynghori cyn penderfynu ar unrhyw argymhelliad sy'n ymwneud â'r cynnig.

2.0 Y Cynnig a'r Ymgynghoriad

2.1 Ddydd Mawrth, 16 T achwedd 2021, penderfynodd y Cabinet:

Agor cyfnod o ymgynghori ffurfiol gyda budd-ddeiliaid allweddol i ehangu safle'r ysgol a chynyddu nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Drury, gydag adroddiad yn y dyfodol i'w ddarparu i'r Cabinet.

2.2 Mae'r Cyngor yn bwriadu darparu'r lleoedd ychwanegol yn yr ysgol drwy:

- Gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Drury o'i darpariaeth gyfredol, sef 124 o leoedd llawn amser yn yr ysgol, i 180 o leoedd llawn amser, cynnydd o 56 o leoedd llawn amser o 1 Medi 2024 ymlaen.
- Byddai'r cynnig yn golygu y byddai nifer derbyn yr ysgol yn cynyddu o 17 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn i 25 disgybl ym mhob un.
- Byddai'r cynnydd i'r capasiti'n cael ei ddarparu drwy godi estyniad ar adeilad yr ysgol a'i hailfodelu. Y bwriad fyddai cyflwyno'r capasiti newydd i'r ysgol ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau erbyn 1 Medi 2024.

2.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori o ddydd Mawrth 1 Mawrth 2022 tan ddydd Llun 11 Ebrill 2022.

2.4 Yn unol â'r cod, cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ar wefan Cyngor Sir y Fflint, ddydd Mawrth 1 Mawrth 2022, a darparwyd dolen i'r dogfennau ymgynghori i fudd-ddeiliaid. Mae rhestr gyflawn o'r rhai a gafodd y dogfennau i'w gweld yn **Atodiad A**.

2.5 Cyhoeddwyd fersiynau priodol i oedran o'r ddogfen ymgynghori hefyd ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan Cyngor Sir y Fflint. Gellir canfod yr holl fersiynau o'r dogfennau ymgynghori ar dudalen adran Moderneiddio Ysgolion gwefan Cyngor Sir y Fflint ar y ddolen ganlynol:

- 2.6 Dosbarthwyd copïau caled o'r dogfennau ymgynghori i Ysgol Gynradd Drury i bobl eu gweld os nad oeddent yn gallu cyrchu'r wefan. Roedd copïau caled ar gael hefyd, ar gais.
- 2.7 Roedd blwch post ar gael yn Ysgol Gynradd Drury ar gyfer postio ymatebion i'r ymgynghoriad a'u casglu gan aelod o'r Tîm Moderneiddio Ysgolion.
- 2.8 Lluniodd y Cyngor ddogfen ymateb (ffurflen ymateb safonol) i gynorthwyo ac annog pobl i roi eu barn. Roedd hyn yn rhan o'r ddogfen ymgynghori a chafodd ei chyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor. Roedd y fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys ffurflen ymateb symlach. Cafodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ei thrawsnewid yn arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r pecyn ar-lein Smart Survey. Cyhoeddwyd y dolenni i'r arolwg a chod QR hefyd ar y wefan.
- 2.9 Derbyniodd pawb yr ymgynghorwyd â nhw e-bost gyda dolen yn eu cyfeirio at y ddogfen ymgynghori ffurfiol, dogfennau atodol, yn ogystal â dolen i'r arolwg ar-lein ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad ar 1 Mawrth 2022.
- 2.10 Cynhyrchwyd dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

3.0 Digwyddiadau/Cyfarfodydd Ymgynghori

- 3.1 Oherwydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd, ac i helpu i gyfyngu ar ledaeniad y Coronafeirws, ni chynhaliodd y Cyngor unrhyw ddigwyddiadau galw heibio cyhoeddus yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, gellid cyflwyno cwestiynau trwy e-bost, gyda Swyddogion y Cyngor yn darparu ymateb o fewn 7 diwrnod.


4.0 Ymateb i'r Ymgynghoriad

- 4.1 Derbyniodd y Cyngor 40 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori a gyflwynwyd drwy'r ffurflen ymgynghori safonol ar-lein. Cafwyd y ddau ymateb arall gan Estyn a disgyblion yr ysgol.
- 4.2 Trefnwyd sesiwn mapio meddwl disgyblion ysgol gan Ysgol Gynradd Drury. Mae canfyddiadau hyn wedi'u nodi yn Adran 5.
- 4.3 Yn ogystal, cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan Estyn, mae'r ymateb llawn gan Estyn i'w weld yn **Atodiad B**.
- 4.4 Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau a ddefnyddiwyd gan bobl i ymateb i'r ymgynghoriad:

Dull cysylltu	Nifer y Cysylltiadau a Dderbyniwyd
Ffurflenni Ymateb Safonol i'r Ymgynghoriad (ar-lein i gyd)	40
Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc	0
Llythyrau a negeseuon E-bost	0
Llythyrau a negeseuon e-bost Plant a Phobl Ifanc	0
Ymatebion y Cyngor Ysgol - e-bost	1
Ymatebion Llywodraethwyr Ysgol (dim ymateb ffurfiol gan y CLI ond llenwodd rhai Llywodraethwyr y ffurflen ar-lein a gyfrifwyd uchod)	0
Ymateb yr Undeb	0
Ymateb Estyn	1
Ymateb AC ac AS	0
Cyfanswm y cysylltiadau	42

5.0 Ymateb Disgyblion ysgol

5.1 Cafodd yr ysgol sesiwn mapio meddwl gyda disgyblion i gael eu hadborth ar y cynnig. Mae eu syniadau wedi'u hamlinellu isod.



5.2 Mae crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd i'w gweld yn **Atodiad D**.

6.0 Ymateb gan Estyn

6.1 Amlinellir y prif bwyntiau a wnaed gan Estyn mewn ymateb i'r cynnig ac ymateb y Cyngor iddynt isod. Mae'r ymateb llawn a dderbyniwyd gan Estyn i'w weld yn **Atodiad B**.

Sylwadau Estyn	Ymateb CSFf
<p>Mae'r cynigiwr yn rhoi sylw priodol i addasrwydd adeilad yr ysgol, gan amlinellu'r cyllid sydd ei angen i ddatrys materion cyflwr yn ogystal â gwybodaeth ynghylch ariannu'r cynnig i ehangu'r ysgol. Mae'r cynigiwr yn rhoi sylw priodol i gapasiti presennol yr ysgol. Mae'n ystyried effaith y cynnydd yn y nifer derbyn ar y galw disgwylidig yn y dyfodol am leoedd ysgol yn yr ardal. Mae'r cynigiwr hefyd yn ystyried yr effaith ar niferoedd disgyblion mewn ysgolion eraill yn yr ardal ac ar drosglwyddo i ysgolion uwchradd. Nid yw'n ymddangos bod yr adeilad presennol yn gallu bodloni'r galw am leoedd ysgol yn ddigonol ar hyn o bryd.</p>	<p>Nodwyd</p>
<p>Mae'r cynigiwr wedi nodi effaith debygol y cynnig. Er yr ystyrir yr effaith ar yr amgylchedd lleol, nid yw'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â gwelliannau i lwybrau cerdded diogel fel rhan o'r cynllun arfaethedig ac felly sut y gellir lliniaru peryglon cysylltiedig. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn ystyried risgiau prosiect yn briodol.</p>	<p>Mae llwybrau diogel i'r ysgol a threfniadau teithio llesol yn cael eu hystyried mewn partneriaeth â'r Timau Cynllunio a Gwasanaethau Stryd. Mae strategaeth deithio gydlynol a chynllun teithio i'r ysgol eisoes yn eu lle i hyrwyddo dewisiadau teithio ecogyfeillgar. Daw'r galw am leoedd o'r tu mewn i'r ardal gyfagos, felly byddai cynigion yn cynnwys mesurau i wneud y mwyaf o deithio llesol i'r ysgol. Bydd Asesiad o Effaith ar Drafnidiaeth yn cael ei baratoi yn ystod cyfnod cynllunio'r prosiect.</p>
<p>Mae'r cynnig yn ystyried ystod fanwl o ddewisiadau amgen ac yn rhoi sail resymegol ar gyfer yr opsiwn a ffefrir. Mae'r cynnig yn rhagamcanu cynnydd yn nifer y disgyblion yn seiliedig ar or-alw, datblygiadau tai newydd a rhagor o gartrefi newydd wedi'u cynllunio yn yr ardal.</p>	<p>Nodwyd</p>
<p>Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan ei Gynllun Strategol Addysg Gymraeg ei hun. Mae'r cynnig yn nodi na fydd yn effeithio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal ond nid yw'n nodi lefel y galw am ddarpariaeth Gymraeg yn glir. Daw'r cynnig i'r casgliad na fydd yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor mewn perthynas â Cymraeg 2050.</p>	<p>Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar addysg Gymraeg ar gyfer y cynnig hwn. Bydd unrhyw ddogfarniadau ychwanegol yn cael eu staffio'n briodol. Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg. Mae bob amser yn ddefnyddiol cael adborth gan y gymuned ar Addysg Cyfrwng Cymraeg i lywio ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.</p> <p>Mae'r galw am Gyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cael ei asesu ar hyn o bryd gyda</p>

	golwg ar ganfod atebion priodol i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg.
Mae costau ariannol y cynnig wedi'u nodi'n dda. Mae'r Cyngor yn nodi'r cyfraniad sydd i'w wneud gan Lywodraeth Cymru o dan raglen ariannu Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda'r gost sy'n weddill i'w thalu gan gyfalaf y Cyngor i fynd i'r afael â'r galw am leoedd ysgol.	Nodwyd
Yn ei harolygiad diwethaf ym mis Tachwedd 2018 barnwyd bod Ysgol Gynradd Drury yn ddigonol ac angen gwelliant mewn safonau ond yn dda mewn perthynas â phob maes arolygu arall. Mae'r cynnig yn awgrymu'n fyr y ffyrdd y bydd yn galluogi'r tîm arwain i lunio'r ddarpariaeth addysgu a dysgu i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes barn ddiweddar gan yr ALI na'r Consortiwm ar ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cynnig.	Barn Gwella Ysgolion/Consortiwm Rhanbarthol: Tynnwyd YG Drury o Fonitro Estyn ym mis Mawrth 2021. Mae'r ysgol yn parhau i gael ei chefnogi gan yr ALI a'r consortiwm rhanbarthol, GwE, i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a nodwyd yn eu harolwg Estyn.
Mae Cyngor Sir y Fflint yn ystyried effaith y cynnig ar les a gofal yn briodol. Mae'n gwneud cyswllt rhwng yr adeilad newydd a chryfhau'r ddarpariaeth ddysgu ar draws ystod oedran yr ysgol. Nid yw'r cynigiwr yn nodi a fydd y cynnig yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.	Mae'r ysgol eisoes yn gwneud rhywfaint o waith hygyrchedd yn dilyn arolwg addasrwydd a nododd yr angen am doiledau hygyrch. Bydd unrhyw ailgynllunio'r adeilad presennol o dan y cynnig hwn yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â phryderon cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
Mae asesiad effaith cydraddoldeb priodol wedi'i gynnal a chanfuwyd na ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol ar unrhyw grŵp. Nid yw'r effaith ar y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi'i nodi.	Nid oes unrhyw effaith wahaniaethol negyddol ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fel rhan o'r cynllun bydd y gwaith o adnewyddu cyfleusterau bwyta yn cael ei adolygu.

6.2 Mae ymateb Estyn yn nodi ei farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth yn yr ardal.

7.0 Ffurflenni Ymateb Safonol

7.1 Cafodd y ffurflen ymateb safonol ei chynllunio i sefydlu:

- ym mha rinwedd roeddent yn ymateb;
- a oedd pobl o blaid y cynnig ai peidio ac unrhyw sylwadau yr oedent yn dymuno ei wneud;
- yr effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- a oeddent am gael eu hysbysu am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori;
- Gwybodaeth Cydraddoldeb.

- 7.2 Ar y ffurflenni ymateb, gofynnwyd i bobl i gadarnhau a oeddent yn ymateb fel disgybl, rhiant, llywodraethwr, athro, staff cymorth, preswilydd lleol neu arall. Amlinellir manylion pellach yr ymatebwyr yn **Atodiad C**.
- 7.3 Roedd dros hanner yr ymatebion gan rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid presennol a darpar rai ar 65%. Daeth 72% o'r ymatebion oddi wrth y rhai a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig ag Ysgol Gynradd Drury.
- 7.4 Roedd 90% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. O'r rhai oedd yn anghytuno â'r cynnig roedd 1 yn rhiant/gofalwr presennol, ac roedd 3 yn aelodau o'r gymuned. Roedd yr holl ymatebwyr sy'n gysylltiedig â'r ysgol h.y. Staff/Llywodraethwyr yn cytuno â'r cynnig.
- 7.5 Roedd yr ymatebwyr yn gallu rhoi sylwadau ychwanegol ynghylch a oeddent yn cefnogi'r cynnig ai peidio. Mae dadansoddiad o amllder y materion sy'n cael eu codi yn yr adran sylwadau a'r rheini gan Estyn a BIPBC (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) (isod). Mae'r ymatebion wedi'u grwpio i'r categorïau y dylai cyrff perthnasol eu hystyried wrth arfer eu swyddogaethau o baratoi a chyhoeddi cynigion trefniadaeth ysgolion, neu wrth eu cymeradwyo/penderfynu arnynt.

YMATEBION YMGYNGHORAI	Nifer
1. Adnoddau Addysg a Goblygiadau Ariannol Eraill	
<ul style="list-style-type: none"> Mae costau ariannol y cynnig wedi'u nodi'n dda (ymateb Estyn). 	1
2. Yr angen am leoedd a'r Effaith ar Hygyrchedd ysgolion	
<ul style="list-style-type: none"> Lle sydd ei angen yn fawr, mae'n hen bryd i'r ysgol gael estyniad Mae lle yn brin ac nid yw ystafelloedd cabannau dosbarth yn ddigonol Mae'r cynigiwr yn rhoi sylw priodol i gapasiti presennol yr ysgol. Mae'n ystyried effaith y cynnydd yn y nifer derbyn ar y galw disgwylidig yn y dyfodol am leoedd ysgol yn yr ardal. Nid yw'n ymddangos bod yr adeilad presennol yn gallu bodloni'r galw am leoedd ysgol yn ddigonol ar hyn o bryd. (Ymateb Estyn) 	13
3. Ansawdd a Safonau mewn Addysg	
<ul style="list-style-type: none"> Pryderon ynghylch maint dosbarthiadau Gwybodaeth fwy diweddar i gefnogi'r cynnig, barn y consortiwm rhanbarthol ar ansawdd a safonau presennol mewn addysg, gan gynnwys safonau, lles ac arweinyddiaeth a rheolaeth. (Ymateb Estyn) 	11
4. Effaith ar y Gymuned	
<ul style="list-style-type: none"> Materion Parcio/ Pryderon Traffig Nid yw'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â gwelliannau i lwybrau cerdded diogel fel rhan o'r cynllun arfaethedig ac felly sut y gellir lliniaru peryglon cysylltiedig (Ymateb Estyn). 	7

5. Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg	
<ul style="list-style-type: none"> Anodd asesu'r effaith Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan ei Gynllun Strategol Addysg Gymraeg ei hun (Ymateb Estyn). 	3
6. Effaith Cydraddoldeb/Gwrthdodi	
<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'r effaith ar y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi'i nodi. (Ymateb Estyn) Nid yw'r cynigiwr yn nodi a fydd y cynnig yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. (Ymateb Estyn) 	2

7.6 Mae dadansoddiad cryno llawn o'r ymatebion a dderbyniwyd drwy'r ffurflen ymateb safonol i'w weld yn **Atodiad C**, ac mae ymatebion y Cyngor i'r rhain i'w gweld yn **Atodiad D**.

8.0 Ymatebion gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol

8.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion gan AC/AS.

9.0 Ymatebion gan Lywodraethwyr

9.1 Derbyniwyd 1 ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori gan Lywodraethwyr. Roedd yr holl Lywodraethwyr a lenwodd y ffurflen ymateb safonol i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig.

10 Y Camau Nesaf

10.1 Cyfarfu Aelodau Cabinet Cyngor Sir y Fflint ar 12 Gorffennaf 2022 i drafod yr Ymgynghoriad ar y bwriad i ehangu adeiladau Ysgol Drury. Ar ôl cael y wybodaeth a gasglwyd drwy'r Ymgynghoriad, penderfyniad y Cabinet oedd parhau i'r Hysbysiad Statudol ar gyfer penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod lle mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn ysgrifenedig. Yn dilyn hyn byddai angen i'r Cabinet wedyn ystyried adroddiad arall yn crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen ai peidio.

Ni fydd unrhyw sylwadau a wneir yn erbyn y cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau. Os bydd unrhyw ymgynghoreion yn dymuno gwrthwynebu rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu. Bydd gwybodaeth am sut i wneud hyn yn cael ei nodi'n glir ar yr Hysbysiad Statudol maes o law.

ATODIAD A

Rhestr o'r Rhai a Dderbyniodd y Ddogfen Ymgynghori (Fersiynau Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc); Asesiad Trafnidiaeth, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r ddogfen ymgynghori ffurfiol hon wedi cael ei hanfon at amrywiaeth eang o ymgynghoreion gan gynnwys:

Gofyniad o dan God Sefydliadol 011/2018	Bydd yn cael ei dosbarthu i
Cymuned yr ysgol	Y Pennaeth, athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Drury Disgyblion Ysgol Gynradd Drury Rhieni, gofalmwyr a gwarcheidwaid (a lle bo'n bosibl darpar rieni, gofalmwyr a gwarcheidwaid) disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Drury Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Drury
awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion;	Cyngor Sir y Fflint sy'n cyflwyno'r cynnig
unrhyw awdurdod lleol arall sy'n debygol o gael ei effeithio – gan gynnwys yn achos darpariaeth Angen Addysgol Arbennig (AAA)/Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) penodol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli disgyblion â datganiad ynddo;	
Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio wedi'i lleoli;	Esgobaeth Yr Eglwys yng Nghymru Yr Esgobaeth Gatholig
unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;	
Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac ysgolion eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion, gan gynnwys rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion wedi'u dadleoli.	Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Mountain Lane Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Westwood Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Southdown Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Ewloe Green
Corff Llywodraethu unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o gael effaith arnynt.	Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Elfed Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Penarlâg Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Argoed
Gweinidogion Cymru.	
Aelodau'r Cynulliad (AC) ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	Aelodau o'r Senedd Aelodau o'r Cynulliad
Estyn.	Prif Weithredwr Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Undebau llafur addysgu ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	Cynrychiolwyr NASUWT; NEU; UCAC; ASCL; UNSAIN
Y Consortïwm Addysg Rhanbarthol perthnasol.	Ymgynghorydd GwE ar gyfer Ysgol Gynradd Drury
Y Consortïwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol.	
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	Comisiynydd yr Heddlu ar gyfer Gogledd Cymru
Unrhyw gyngor cymuned neu gyngor tref ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion	Cyngor Tref Bwcle

Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnaedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol).	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol a allai gael eu heffeithio;	Meithrinfa Busy Bees Meithrinfa Ddydd Stepping Stones Meithrinfa Ddydd First Steps Meithrinfa Ddydd The Highway
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth meithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle maen nhw'n bresennol.	Mudiad Meithrin Blynyddoedd Cynnar Cymru Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) PACEY
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Angen Addysgol Arbennig/Angen Dysgu Ychwanegol, unrhyw gorff iechyd neu trydydd sector perthnasol sydd â diddordeb.	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol.	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno.	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.	
Arall	Holl Gyngorwyr Cyngor Sir y Fflint Cymuned ehangach Drury

ATODIAD B

Ymateb Estyn i'r cynnig i ehangu'r safle yn Ysgol Gynradd Drury, gan gynyddu'r capasiti yn yr ysgol o 1 Medi 2024.

This report has been prepared by Her Majesty's Inspectors of Education and Training in Wales.

Under the terms of the School Standards and Organisations (Wales) Act 2013 and its associated Code, proposers are required to send consultation documents to Estyn. However, Estyn is not a body which is required to act in accordance with the Code and the Act places no statutory requirements on Estyn in respect of school organisation matters. Therefore, as a body being consulted, Estyn will provide their opinion only on the overall merits of school organisation proposals.

Estyn has considered the educational aspects of the proposal and has produced the following response to the information provided by the proposer.

Cyflwyniad

Mae'r cynnig ymgynghori hwn gan Gyngor Sir y Fflint. Y cynnig yw ehangu safle'r ysgol a chynyddu capasiti Ysgol Gynradd Drury o 124 o leoedd ysgol amser llawn i 180 o 1 Medi 2024.

Crynodeb / Casgliad

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth yn yr ardal, o leiaf.

Disgrifiadau a manteision

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi darparu rhesymeg ddefnyddiol ar gyfer y cynnig. Maent yn amlinellu'n glir fanteision ehangu'r safle i wella adeiladau a chynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn. Mae'r cynigiwr yn rhoi sylw priodol i addasrwydd adeiladu'r ysgol, gan amlinellu'r cyllid sydd ei angen i ddatrys problemau'n ymwneud â chyflwr yn ogystal â gwybodaeth ynghylch ariannu'r cynnig i ehangu'r ysgol. Mae'r cynigiwr yn rhoi sylw priodol i gapasiti presennol yr ysgol. Mae'n ystyried effaith cynyddu'r nifer derbyn ar y galw disgwylfiedig am leoedd ysgol yn yr ardal yn y dyfodol. Hefyd, mae'r cynigiwr yn ystyried yr effaith ar niferoedd y disgyblion mewn ysgolion eraill yn yr ardal, ac ar drosglwyddo i ysgolion uwchradd. Nid yw'n ymddangos bod yr adeilad presennol yn gallu bodloni'r galw am leoedd ysgol yn ddigonol ar hyn o bryd.








Mae'r Cyngor Sir yn rhoi disgrifiad clir o'r amserlen arfaethedig ar gyfer gweithdrefnau statudol, ac ar gyfer gweithredu'r cynigion. Mae'r cryfderau a'r gwendidau ym mhob un o'r opsiynau a ystyriwyd yn briodol fanwl. Mae'r cynigiwr wedi amlinellu effaith debygol y cynnig. Er bod yr effaith ar yr amgylchedd lleol yn cael ei hystyried, nid yw'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ynghylch gwelliannau i lwybrau cerdded diogel fel rhan o'r cynllun arfaethedig, ac felly, sut gellir lliniaru peryglon cysylltiedig. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn ystyried risgiau'r prosiect yn briodol.

Mae'r cynnig yn ystyried ystod fanwl o ddewisiadau amgen ac yn darparu rhesymeg ar gyfer yr opsiwn a ffefrir. Mae'r cynnig yn rhagweld y bydd cynnydd yn niferoedd y disgyblion ar sail gormod o alw am leoedd, datblygiadau tai newydd a'r bwriad i adeiladu mwy o dai newydd yn yr ardal.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ei hun. Mae'r cynnig yn dangos na fydd yn effeithio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, ond nid yw'n gwneud yn glir

ATODIAD C

Crynodeb o'r ymatebion i'r Ffurflen Ymateb Safonol

1. Nodwch sut rydych chi'n gysylltiedig â'r ysgolion y mae'r ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt:				
Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebion	Cyfanswm yr Ymatebion
1	Rhiant, gwarcheidwad neu ofalwr		62.50%	25
2	Darpar riant, gwarcheidwad neu ofalwr		2.50%	1
3	Llywodraethwr		2.50%	1
4	Aelod o staff		5.00%	2
5	Aelod o'r Gymuned		27.50%	11
6	Sefydliad e.e. Cyngor Cymuned		0.00%	0
7	Dim cysylltiad		2.50%	1
8	Arall (nodwch os gwelwch yn dda):		2.50%	1
			wedi ateb	40
			wedi pasio	0
Arall (nodwch os gwelwch yn dda): (1)				
1	25/03/2022 14:26 PM ID: 187953617	Preswlydd lleol		

**Roedd yr ymatebwyr yn gallu ymateb mewn mwy nag un swyddogaeth. Mae hyn yn esbonio pam nad yw'r cyfanswm a atebwyd yn cyfateb.*

Sylwadau: Roedd dros hanner yr ymatebion oddi wrth rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, presennol a darpar rai ar 65%. Roedd aelodau o'r gymuned yn cyfrif am ychydig o dan draean o'r ymatebion gydag ymatebion Llywodraethwyr ac aelodau staff ar 8%.

2. Os ydych yn gysylltiedig ag ysgol, nodwch pa ysgol yr ydych yn gysylltiedig â hi:

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebion	Cyfanswm yr Ymatebion
1	Ysgol Gynradd Drury		72.50%	29
2	Ysgol Gynradd Mountain Lane, Bwcle		0.00%	0
3	Ysgol Gynradd Gymunedol Westwood, Bwcle		2.50%	1
4	Ysgol Gynradd Southdown, Bwcle		0.00%	0
5	Ysgol Gynradd Ewloe Green		5.00%	2
6	Dim cysylltiad		17.50%	7
7	Ysgol Arall (Nodwch os gwelwch yn dda):		2.50%	1
			wedi ateb	40
			wedi pasio	0
Ysgol Arall (Nodwch os gwelwch yn dda) : (1)				
1	07/03/2022 21:13 PM ID: 186442814	Ysgol Uwchradd Elfed		


Sylwadau: Daeth 72.5% o'r ymatebion gan y rhai sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag Ysgol Gynradd Drury

, gydag 8% o ysgolion cyfagos a 2.5% pellach gan ysgolion eraill. Nid oedd gan y gweddill unrhyw gysylltiad neu cawsant eu categorio fel eraill.

3. A ydych yn cefnogi'r cynnig i: Ehangu Ysgol Gynradd Drury a chynyddu capasiti 3 11 Ysgol Gynradd Drury o 124 i 180 o leodd amser llawn cynnydd o 56 o leodd amser llawn o 1 Medi 2024.

Dewisiadau Ateb		Canran yr Ymatebion	Cyfanswm yr Ymatebion
1	Ydw	90.00%	36
2	Na	10.00%	4




Sylwadau: Roedd 90% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. O'r 10% oedd yn anghytuno â'r cynnig roedd 1 yn rhiant/gofalwr presennol, ac roedd 3 yn aelodau o'r gymuned. Roedd yr holl ymatebwyr sy'n gysylltiedig â'r ysgol h.y. Staff/Llywodraethwyr yn cytuno â'r cynnig.



4. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi sylwadau ynghylch a oeddent yn cefnogi'r cynnig ai peidio. Gwnaed 20 sylw ychwanegol, o'r rhai a wnaeth sylwadau roedd 16 yn cytuno â'r cynnig, tra roedd 4 yn anghytuno. Cafodd y sylwadau eu grwpio yn themâu gydag enghreifftiau o'r sylwadau a wnaed.

Thema	Nifer	Enghreifftiau o Sylwadau
Cadarnhaol/cytuno - gofod ychwanegol sydd mawr ei angen	13	<ul style="list-style-type: none"> • cytuno'n gryf bod angen dybryd ar yr ysgol am ystafelloedd dosbarth mwy, neuadd, ystafell athrawon a storfa ychwanegol ac mai ateb dros dro oedd y cabannau i fod bob amser. • Mae'r ysgol ar fin cael estyniad ac rwy'n siŵr y bydd y plant yn elwa mewn nifer o ffyrdd. • Mae hen gynllun yr adeilad, gyda choridorau cul ac ystafelloedd bach, yn gyfyng iawn. • Byddai'r plant yn elwa o fwy o le yn yr holl gyfleusterau megis ystafelloedd dosbarth, toiledau ac ystafell gotiau/storfa. • Byddai hyn yn caniatáu i'r ysgol ddychwelyd i ddsbarthiadau blwyddyn sengl yn hytrach na chymysg fel y mae
Pryderon Parcio/Traffig	7	<ul style="list-style-type: none"> • Ni all yr isadeiledd ffyrdd ddarparu ar gyfer parcio a thraffig ychwanegol. • Bydd hyn yn achosi cynnydd yn nifer y ceir ychwanegol sy'n gyrru plant i'r ysgol. Bydd yn agor y llifddorau i ganiatáu i Drury gael ei wneud yn dref trwy ganiatáu adeiladu tai ychwanegol • Nid oes digon o le parcio i rieni pan fyddant yn gollwng ac yn codi. Gall fod yn beryglus pan fydd ceir yn parcio ar gorneli neu'n rhwystro'r groesffordd. blocking the cross road junction. • Pa ddarpariaeth sydd i'w darparu ar gyfer y cynnydd mewn traffig, mae wedi gwaethygu'n gynyddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. • Tra'n cydnabod yr angen i ehangu maint yr ysgol gofynnaf i anghenion y trigolion lleol gael eu cymryd i ystyriaeth yn ystod ac ar ôl y gwaith arfaethedig. the proposed work. • Fel rhan o'r ehangu mae'n rhaid ystyried ardal bwrpasol (oddi ar y ffordd) ar gyfer danfon nwyddau ac ardal benodedig (oddi ar y ffordd) ar gyfer parcio i'r anabl. • Cefnogi'r cynnydd mewn capasiti, ond o fyw yn y gymuned, hoffwn gael fy ymgynghori ynghylch y cynlluniau gan gynnwys mwy o anawsterau parcio posibl.
Maint Dosbarthiadau	1	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi ymestyn adeiladau ysgol i gymryd mwy o ddisgyblion. Ond i uchafswm maint dosbarth o 25 yn unig, mae'r ysgol sy'n ardderchog am ofalu am ei disgyblion ac rwy'n bryderus y gellid colli hynny ychydig os bydd dosbarthiadau â mwy na 25.
Arall	1	<ul style="list-style-type: none"> • Mae lle yn brin yn ysgol Drury. Gyda chynnydd mewn tai yn yr ardal nid yw'n ymddangos bod cyllid digonol yn cael ei roi i'r ysgol. Nid yw'n ymddangos bod ychwanegu mwy o gabannau yn ddigonol ar gyfer y cynnydd ym maint dosbarthiadau.
Cyfleoedd Cymraeg	3	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r cynnig yn dangos unrhyw gyfraniad i unrhyw un o'r disgrifiadau felly mae'n anodd asesu'r effaith. Rwy'n ei chael hi'n anodd gweld sut mae cynyddu capasiti'r ysgol yn effeithio ar ddefnydd ieithoedd. Bydd hyn i gyd yn dibynnu ar y cwricwlwm, addysgu a dysgu.

5. A ydych yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Dewisiadau Ateb			Canran yr Ymatebion	Cyfanswm yr Ymatebion
1	Ydw		25.00%	10
2	Na		2.50%	1
3	Dim effaith		75.00%	30
			wedi ateb	40
			wedi pasio	0


Sylwadau: Teimlai'r rhan fwyaf o bobl na fyddai unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni fyddai'r cynnig hwn yn darparu ar gyfer lleoedd ychwanegol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac nid yw'n effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg.

Sylwch fod yr ymatebion i'r pryderon a godwyd wedi'u hystyried fel rhan o'r prif ymatebion i'r ymgynghoriad yn **Atodiad D**.

Atodiad D - Crynodeb o'r Ymatebion o Ymgynghoriad Drury

Cafodd y Cyngor 42 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori a gyflwynwyd drwy'r ffurflen ymgynghori safonol ar-lein gan gynnwys ymatebion oddi wrth Estyn a disgyblion ysgol.


Crynodeb o'r ymatebion i'r Ffurflen Ymateb Safonol



FFEITHIAU ALLWEDDOL

- Cytunodd 90% â'r cynnig.
- Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn rhiant/gofalwr presennol ac yn aelodau o'r gymuned.
- Roedd yr holl ymatebwyr sy'n gysylltiedig â'r ysgol h.y. Staff/Llywodraethwyr yn cytuno â'r cynnig.
- Roedd dros hanner yr ymatebion oddi wrth rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, presennol a darpar rai ar 65%.
- Roedd ychydig o dan draean o'r ymatebion oddi wrth aelodau o'r gymuned.
- Roedd ymatebion llywodraethwyr ac aelodau staff ar 18%.

Adborth disgyblion



Mae Cyngor Sir y Fflint yn croesawu syniadau creadigol a dychmygus disgyblion Ysgol Drury, a bydd yn eu cynnwys mewn trafodaethau ehangach am y dyluniad!

Ymatebion a sylwadau gan CSFf ar sylwadau a gafwyd (gan gynnwys ymateb ffurfiol Estyn)

Yn y ffurflen ymateb safonol ar-lein, rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi sylwadau ynghylch a oeddent yn cefnogi'r cynnig ai peidio. Gwnaed 44 sylw ychwanegol, o'r rhai a wnaeth sylwadau roedd 22 yn cytuno â'r cynnig, tra roedd 17 yn anghytuno. Mae'r ymatebion wedi'u grwpio, yn ôl amllder uchaf y sylwadau, ac i'r categorïau y **dylai** cyrff perthnasol eu hystyried wrth arfer eu swyddogaethau o baratoi a chyhoeddi cynigion trefniadaeth ysgolion, neu wrth eu cymeradwyo/penderfynu arnynt.

YMATEBION YMGYNGHORAI	Nifer	Ymateb CSFf
1. Adnoddau Addysg a Goblygiadau Ariannol Eraill		
<ul style="list-style-type: none"> Mae costau ariannol y cynnig wedi'u nodi'n dda (ymateb Estyn). 	1	Nodwyd
2. Yr angen am leoedd a'r Effaith ar Hygyrchedd ysgolion		
<ul style="list-style-type: none"> Lle sydd ei angen yn fawr, mae'n hen bryd i'r ysgol gael estyniad Mae lle yn brin ac nid yw ystafelloedd cabannau dosbarth yn ddigonol Mae'r cynigiwr yn rhoi sylw priodol i gapasiti presennol yr ysgol. Mae'n ystyried effaith y cynnydd yn y nifer derbyn ar y galw disgwylidig yn y dyfodol am leoedd ysgol yn yr ardal. Nid yw'n ymddangos bod yr adeilad presennol yn gallu bodloni'r galw am leoedd ysgol yn ddigonol ar hyn o bryd. (Ymateb Estyn) 	13	<p>Mae Cyngor Sir y Fflint yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig. Mae Ysgol Gynradd Drury wedi bod yn orlawn yn barhaus ers nifer o flynyddoedd, mae hyn wedi rhoi pwysau ar adeiladau'r ysgol ac wedi arwain at osod caban ar y safle i gefnogi'r disgyblion ychwanegol sy'n cael eu derbyn. Bydd y cynnig yn darparu digon o gapasiti i fodloni'r galw disgwylidig gan deuluoedd lleol am y dyfodol rhagweladwy.</p> <p>Y cynnig yw ymestyn adeilad presennol yr ysgol o ddau ddsbarth ac ailfodelu'r adeilad presennol. Nod Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint yw darparu trefniadaeth ysgolion cynradd gwydn a chynaliadwy, gyda gwell amgylcheddau dysgu a gwaith a chael gwared ar gabannau.</p>

3. Ansawdd a Safonau Addysg		
<ul style="list-style-type: none"> • Pryderon ynghylch maint dosbarthiadau • Gwybodaeth fwy diweddar i gefnogi'r cynnig, barn y consortiwm rhanbarthol ar ansawdd a safonau presennol mewn addysg, gan gynnwys safonau, lles ac arweinyddiaeth a rheolaeth. (Ymateb Estyn) 	11	<p>Bydd y cynnig a'r briff dylunio ar gyfer yr estyniad yn adolygu'r ddarpariaeth ystafell ddosbarth.</p> <p>Barn Gwella Ysgolion/Consortiwm Rhanbarthol: Tynnwyd YG Drury o Fonitro Estyn ym mis Mawrth 2021. Mae'r ysgol yn parhau i gael ei chefnogi gan yr ALI a'r consortiwm rhanbarthol, GwE, i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a nodwyd yn eu harolwg Estyn.</p>
4. Effaith Gymunedol		
<ul style="list-style-type: none"> • Materion Parcio/ Pryderon Traffig • Nid yw'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â gwelliannau i lwybrau cerdded diogel fel rhan o'r cynllun arfaethedig ac felly sut y gellir lliniaru peryglon cysylltiedig (Ymateb Estyn). 	7	<p>Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod y pryderon ynghylch y sefyllfa draffig yn yr ysgol. Bydd mynediad a pharcio gwell yn cael eu hystyried yn y cynigion dylunio.</p> <p>Mae llwybrau diogel i'r ysgol a threfniadau teithio llesol yn cael eu hystyried mewn partneriaeth â'r Timau Cynllunio a Gwasanaethau Stryd. Mae strategaeth deithio gydlynol a chynllun teithio i'r ysgol eisoes yn eu lle i hyrwyddo dewisiadau teithio ecogyfeillgar. Daw'r galw am leoedd o'r tu mewn i'r ardal gyfagos, felly byddai cynigion yn cynnwys mesurau i wneud y mwyaf o deithio llesol i'r ysgol.</p>
5. Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg		
<ul style="list-style-type: none"> • Anodd asesu'r effaith • Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan ei Gynllun Strategol Addysg Gymraeg ei hun (Ymateb Estyn). 	3	<p>Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar addysg Gymraeg ar gyfer y cynnig hwn. Bydd unrhyw ddogfenniadau ychwanegol yn cael eu staffio'n briodol. Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg. Mae bob amser yn ddefnyddiol cael adborth gan y gymuned ar Addysg Cyfrwng Cymraeg i lywio ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.</p>
6. Effaith Cydraddoldeb/Gwrthdodi		
<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r effaith ar y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi'i nodi. (Ymateb Estyn) • Nid yw'r cynigiwr yn nodi a fydd y cynnig yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion 	2	<p>Nid oes unrhyw effaith wahaniaethol negyddol ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fel rhan o'r cynllun bydd y gwaith o adnewyddu cyfleusterau bwyta yn cael ei adolygu.</p> <p>Mae'r ysgol eisoes yn gwneud rhywfaint o waith hygyrchedd yn dilyn arolwg addasrwydd a nododd yr angen am doiledau hygyrch. Bydd unrhyw ailgynllunio'r adeilad presennol o dan y</p>

Deddf Cydraddoldeb 2010. (Ymateb Estyn)	cynnig hwn yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
--	--

Diolch i bawb a gymerodd ran yn y broses hon.